# SL(5)560 – Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ymyrryd i atal niwed i'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd a achosir gan anawsterau gwaredu gwastraff yn y sector gwastraff oherwydd lledaeniad COVID-19. I fynd i'r afael â hyn, efallai y bydd angen i Weinidogion ddefnyddio pwerau Cyfarwyddo i'w gwneud yn ofynnol i bersonau fynd â gwastraff i safleoedd penodol ac i'w gwneud yn ofynnol i'r safleoedd hynny dderbyn y gwastraff hwnnw.

O dan adran 57(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo deiliad unrhyw drwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi gweithrediad gwastraff i dderbyn a chadw, neu dderbyn a thrin neu waredu, gwastraff mewn mannau penodedig o dan delerau penodedig.

O dan adran 57(2) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw berson sy'n cadw gwastraff ar dir i ddanfon y gwastraff i berson penodedig o dan delerau penodedig, gyda'r nod bod y gwastraff yn cael ei drin neu ei waredu gan y person hwnnw.

Mae adran 57(6) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i ddeddfiadau gael eu rhagnodi gan Reoliadau i sicrhau na chaiff person fod yn euog o drosedd o dan y deddfiadau hynny oherwydd unrhyw beth a wneir er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddyd o dan adran 57.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r deddfiadau a ganlyn at ddibenion Adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (amddiffyniadau yn achos cydymffurfio â chyfarwyddyd):

- Adrannau 33, 34 a 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990,
- Adrannau 171G, 179, 187, 187A, 216 a 331 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,
- Adran 23 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990,
- Rheoliad 65 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005,
- Rheoliad 56 o Reoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009,
- Rhannau 5, 8, a 9 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, a
- Rheoliad 38 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad nac asesiad effaith reoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, ac mae'n nodi hefyd yr esboniadau a roddwyd yn y Memorandwm Esboniadol:

"Ni ymgynghorwyd ar Reoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020 oherwydd nad ydynt yn cyflwyno newidiadau digonol i bolisi neu'n effeithio ar fusnesau neu'r cyhoedd mewn ffordd a fyddai'n golygu bod angen cynnal ymgynghoriad. Diben y Rheoliadau yw hwyluso'r defnydd o'r pwerau sydd eisoes yn bodoli a lleihau'r risg o herio neu fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd. Nid yw ymgynghori yn ofyniad cyfreithiol."  Hefyd:

"Mae'r angen am y rheoliadau wedi'i nodi yn rhan o'r gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer materion a all godi yn sgil lledaeniad Covid-19. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i baratoi Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020, nid oes Asesiad Effaith wedi'i lunio. Ni ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, gwirfoddol neu gyhoeddus. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn creu newidiadau o sylwedd i bolisi. Diben y Rheoliadau yw hwyluso'r pwerau sydd eisoes yn bodoli a lleihau'r risg o herio neu fethiant i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau."

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Mehefin 2020**